Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Hydref 2015

Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r prif feysydd lle bu cynnydd a’r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer y flwyddyn 2014–15

© Hawlfraint y Goron 2015 WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4878 0

**Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015**

**Awdurdod Lleol:** **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Caerffili wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## 1. Crynodeb

1.1. Mae'r cyngor wedi parhau i ddefnyddio dull strwythuredig sydd wedi'i gynllunio er mwyn datblygu a thrawsnewid gwasanaethau yn barod ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ac mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr amcanion a nodir yn y cynllun gwella sengl lleol. Mae adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn rhoi darlun cynhwysfawr o statws y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghaerffili ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys adlewyrchu blaenoriaethau a llwyddiannau'r flwyddyn flaenorol yn ogystal â'r meysydd i'w datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod. Mae'n nodi bod yr adran ar y trywydd iawn o ran cyrraedd nod y cynllun ariannol tymor canolig, er bod hyn o fewn adnoddau cyfyngedig cydnabyddedig, ac mae wedi mynd yn fwy dibynnol ar geisiadau llwyddiannus am gyllid a grantiau ychwanegol.

1.2. Mae'r sylfeini cadarn a osodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol wedi galluogi'r cyngor i wneud cynnydd yn y gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae cynlluniau pendant wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer blaenoriaethu, adolygu a datblygu gwasanaethau newydd, sy'n adlewyrchu'r anghenion lleol a'r newid deddfwriaethol cenedlaethol. Mae hyn wedi golygu ailstrwythuro timau a gwasanaethau presennol yn ogystal ag archwilio ffyrdd newydd o weithio. Mae hyn yn cynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, a phartneriaid yn y trydydd sector.

1.3. Mae'r strwythur rheoli corfforaethol a'r trefniadau llywodraethu yn rhoi cymorth er mwyn galluogi gwasanaethau cymdeithasol i barhau i ddatblygu, a dylai cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd newydd wella'r gwaith o oruchwylio'r gwasanaeth yn gyffredinol.

1.4. Mae'r cyngor yn gweithio mewn modd adeiladol â'r rheoleiddwyr, ac mae wedi gwneud cynnydd da o ran y meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad perfformiad AGGCC ar gyfer 2014-2015.Mae'r cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid rhanbarthol yn y sector iechyd a'r trydydd sector er mwyn adeiladu ar gryfderau a cheisio ffyrdd newydd o

weithio. Bydd parhau i ddatblygu'r berthynas gyda'r rhain yn hanfodol i weithio'n llwyddiannus a gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

1.5. Mae'r gefnogaeth barhaus ar lefel gorfforaethol i gydraddoldeb a'r iaith Gymraeg yn amlwg yn adroddiad y cyfarwyddwr, ac mae cynnydd o ran bodloni gofynion "Mwy na Geiriau", sef fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

## 2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Y maes i'w wella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2014-2015 |
|---|---|
| Dylai'r cyngor ddatblygu'r strategaeth gomisiynu ar gyfer pobl hŷn. | Nid yw'r strategaeth wedi'i datblygu hyd yma, ond mae AGGCC wedi cael eu hysbysu yn ystod ein cyfarfodydd ymgysylltu bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ynghylch dichonoldeb strategaeth gomisiynu integredig, ond nid yw hon yn cael ei datblygu bellach, felly bydd yr awdurdod yn cynhyrchu ei strategaeth ei hun. |
| Dylai'r cyngor gwestiynu'r rhesymau dros yr oedi wrth ryddhau, a sefydlu strategaethau er mwyn monitro a gwella ei ddatblygiad. | Cafwyd gwelliant sylweddol o ran hyn. Gwelwyd amrywiaeth o achosion o oedi wrth ryddhau cleifion a strategaethau a fabwysiadwyd i wella hyn. |
| Dylai'r cyngor barhau i ddatblygu dulliau o gefnogi a datblygu sgiliau gofalwyr maeth. | Mae'r cyngor wedi cyflwyno amrywiaeth o ddulliau er mwyn recriwtio mwy o ofalwyr maeth. |
| Dylai'r cyngor:<br><br>• archwilio ffactorau sy'n cyfrannu at y cynnydd mewn nifer y plant ar y gofrestr<br><br>• parhau i ddatblygu dulliau o fesur canlyniadau ar gyfer gwasanaethau newydd | <br><br>Mae hyn wedi cael ei adolygu gan bennaeth y gwasanaeth, ac ni nodwyd unrhyw resymau penodol. Mae'n bosibl bod rhai grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd wedi cyfrannu at hyn.<br><br>Cymryd rhan mewn datblygu canlyniadau ar gyfer gwasanaethau i blant.<br>Cynllun peilot ar gyfer prosiect cenedlaethol. |

| | |
|---|---|
| Dylai'r cyngor barhau i ddatblygu dulliau/fframweithiau ar gyfer adolygu ansawdd. | Mae fframwaith ar gyfer sicrhau ansawdd wedi'i ddatblygu, a dylai fod yn weithredol yn 2015-2016. |
| Dylai'r cyngor barhau i ddatblygu dulliau er mwyn gwella goruchwyliaeth gorfforaethol. | Mae'r broses o wella'r bwrdd llywodraethu ar waith ar gyfer goruchwylio a monitro cynllun gweithredu'r awdurdod lleol. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd ac arolygiadau yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, eu teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli ac yn gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, ymwelwyd â'r safleoedd canlynol:

- Prosiect Gwrando, Ymgysylltu, Gweithredu, Cymryd Rhan
- Cymerwyd rhan mewn adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru: Annibyniaeth pobl hŷn

3.2. Gwnaeth AGGCC hefyd gwrdd ag uwch-swyddogion y cyngor drwy'r flwyddyn er mwyn adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol ac i drafod cynnydd mewn perthynas â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn y gwerthusiad o berfformiad a gynhaliwyd y llynedd. Roedd y cyngor yn barod iawn i ymwneud ag AGGCC, a rhoesant rwydd hynt i AGGCC gynnal ymweliadau safle.

3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC hefyd arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth mewnol ar gyfer maethu. Mae manylion y rhain yn yr adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd datblygiad y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y

flwyddyn sydd i ddod. Bydd y meysydd penodol i fynd ar eu trywydd yn cynnwys:

- Ymweliad â'r tîm anabledd plant
- Ymweliad â'r tîm pobl hŷn
- Cyfarfod â'r cysylltwyr cymunedol
- Cyfarfod â'r gofalwyr
- Cyfarfod â darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu gan y cyngor

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## 6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

**<u>Oedolion</u>**

### Trosolwg

6.1. Er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r cyngor priodol mewn modd amserol, mae'r cyngor wedi parhau i ddatblygu ac ad-drefnu'r gwasanaethau oedolion yn unol â'r blaenoriaethau blynyddol a nodwyd yn adroddiad y cyfarwyddwr y flwyddyn flaenorol. Maent yn cydnabod y cynnydd yn y galw am wasanaethau o ganlyniad i newid demograffig a chanfod meysydd allweddol o effaith ar adnoddau - er enghraifft, mwy o bobl sydd ag anghenion gofal dementia a phobl sydd ag anghenion gofal cymhleth. Bu gwaith parhaus o archwilio a datblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir, a chefnogi unigolion i wneud eu dewis eu hunain ac i fod yn annibynnol o fewn amgylchedd o gyfyngiadau ariannol. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

- Sefydlwyd gwasanaeth un pwynt cyswllt ar gyfer y gwasanaethau gofal

cymdeithasol ar ddechrau'r flwyddyn. Mae teitl y tîm 'Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth' yn rhoi neges ynghylch nodau'r ganolfan gyswllt, sef cyfeirio a chynghori pobl mewn ymateb i'w hanghenion a hybu annibyniaeth. Er mwyn cefnogi'r nod hwn, rhoddir cysylltwyr cymunedol a gweithwyr cefnogi gofalwyr yn y tîm hefyd, gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth ac arwyddion er mwyn galluogi pobl i fod yn annibynnol. Dylai'r cyngor fonitro'r cynnydd o ran hyn.

- Mae 'dull darparu syml' wedi'i roi ar waith, sy'n galluogi staff gwaith cymdeithasol i ddarparu cymhorthion sylfaenol i bobl heb yr angen i gynnal systemau asesu ac atgyfeirio cymhleth. Cafodd hyn ei sefydlu o ganlyniad i ddysgu oddi wrth brosiect peilot a ddechreuodd yn 2014 gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth llai biwrocrataidd a mwy ymatebol. Dylai'r cyngor ystyried dulliau o fonitro ei lwyddiant.

- Mae gwefan y cyngor wedi cael ei hailgynllunio mewn ymgynghoriad â phobl leol. Er ei fod yn cyfeirio pobl at gymorth a chyngor gan y gwasanaethau cymdeithasol, gallai gwe-lywio'r wefan fod yn anodd i rai grwpiau oherwydd bod y wybodaeth yn gymhleth a bod ystod o wybodaeth ar gael. Mae gwasanaethau cymdeithasol â'r nod o ddarparu cyfeiriadur o wybodaeth er mwyn cyfeirio pobl at wasanaethau eraill, a dylai'r cyngor ystyried cynnal ymgynghoriad dilynol er mwyn pennu pa un a yw hyn yn darparu llwybr hygyrch ac addas at wybodaeth.

6.2. Yn 2013-2014, y cyngor oedd â'r gyfradd uchaf o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru. Roedd hwn yn faes yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn ymwybodol ohono, ac roeddent wedi dechrau gofyn cwestiynau er mwyn canfod y rhesymau sylfaenol a gwella'r trefniadau rhyddhau pan fo cymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ofynnol. Roedd hyn yn cynnwys gwneud gwaith er mwyn gwella'r cyfathrebu gyda'r holl ysbytai lleol o ran y broses ryddhau, gan fod nifer y bobl sy'n cael eu rhyddhau o ysbytai acíwt wedi'i nodi'n ffactor cyfrannol. Penodwyd ymarferwyr penodol o fewn y gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty ar y cyd i roi asesiad a chysylltu â chydweithwyr gofal iechyd. Yn ogystal, cynhaliwyd cyfarfodydd misol rhwng cyfarwyddwr cynorthwyol y gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty er mwyn nodi'r amseroedd oedi penodol i unigolion. Mae'r awdurdod lleol yn nodi eu bod yn fwy rhagweithiol o ran herio'r gwasanaeth iechyd ar 'godio' er mwyn sicrhau bod y rhesymau dros yr oedi yn cael eu cofnodi'n gywir. O ganlyniad, mae'r ymyriadau hyn wedi bod yn llwyddiannus, ac mae'r oedi wedi gostwng yn sylweddol o 12 fesul 1,000 o bobl yn 2013-2014 i bump yn 2014-2015.

6.3. Mewn ymateb i gynnydd yn yr angen i gefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain, cafwyd buddsoddiad ychwanegol mewn datblygu'r gwasanaethau presennol. Mae capasiti'r tîm adnoddau cymunedol

wedi'i gynyddu er mwyn bodloni'r galw cynyddol gan recriwtio cydlynydd cwympiadau i'r tîm er mwyn lleihau nifer y cwympiadau a'r derbyniadau i'r ysbyty wedi hynny. Cafodd mwy o staff eu recriwtio i'r tîm gofal brys yn y cartref hefyd, fel y nodir yn y cynllun comisiynu lleol. Cafodd nifer y cyfleusterau ail-alluogi eu cynyddu trwy ddarparu gwelyau asesu mewn cartref gofal yr awdurdod lleol.

6.4. Mae'r cyngor yn dal gafael ar nifer o wasanaethau mewnol. Mae'r gwaith o gynnal adolygiad o'r rhain wedi cychwyn mewn ymateb i'r anghenion newidiol o fewn y gymuned leol ac yn unol â'r agenda annibyniaeth a'r blaenoriaethau cyllidebol. Mae'r ddarpariaeth gwasanaethau dydd wedi'i ad-drefnu yn rhan o adolygiad o wasanaethau dewisol. Mae adnoddau wedi'u hailgyfeirio er mwyn datblygu staff cyswllt cymunedol i weithio ar sail un i un gyda phobl. Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn adrodd adborth cadarnhaol i hyn. Dylid ystyried monitro llwyddiant er mwyn dysgu a chyfrannu at ddatblygiad yn y dyfodol.

6.5. Mae'r gwaith o ailstrwythuro llety cartref gofal preswyl wedi'i wneud er mwyn darparu lle i fwy o bobl ag anghenion gofal dementia. Roedd hyn yn cynnwys datblygu dulliau newydd o ddarparu gofal dementia gyda'r gwasanaethau mewn ymgynghoriad â chymorth gofal dementia arbenigol. Nodwyd arolygiadau rheoleiddiol y gwelliannau yn y gwasanaethau, ond amlygwyd yr angen i wella'r gwaith ffurfiol o adolygu ansawdd y gwasanaethau hefyd er mwyn monitro'r cynnydd.

6.6. Mae'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth wedi parhau i adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn 2013-2014 drwy ddefnyddio 'dull o feddwl trwy systemau' i ailgynllunio a phrofi dulliau newydd o weithio. Mae hyn yn cynnwys ymestyn cynllun peilot yn ne'r fwrdeistref ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn a chynllun peilot mewn gwasanaethau iechyd meddwl yng ngogledd y fwrdeistref. Mae'r rhain yn cefnogi dull o gynnal gwasanaethau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, a cheir tystiolaeth bod y prosiectau'n cael eu monitro'n ofalus er mwyn datblygu dysgu ac adeiladu ar gryfderau. Nodir mwy o fanylion yn ymwneud ag ymweliad safle AGGCC â'r prosiect iechyd meddwl yn yr adran atal ac ymyrraeth gynnar yr adroddiad hwn.

6.7. O ran cymorth parhaus y cyngor i unigolion yn 2014-2015, roedd dangosyddion perfformiad yn dangos gostyngiad yn nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd ar gyfer oedolion sydd wedi derbyn cynllun gofal. Mae'r nifer wedi gostwng dros gyfnod o bedair blynedd, o uchafbwynt o 97% yn 2012-2013 i 90% yn 2014-2015, ond mae'r cyngor yn parhau i berfformio'n well nag awdurdodau lleol tebyg ac yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

6.8. Mae gan yr awdurdod drefniadau diogelu oedolion sydd wedi'u hen

sefydlu, ac maent yn destun adolygiad a symleiddio parhaus er mwyn gwella'r gwasanaeth. Yn 2014-2015, mae hyn wedi cynnwys darparu swydd ychwanegol a ariennir ar y cyd rhwng y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, sef cydlynydd amddiffyn oedolion agored i niwed, oherwydd y nifer uchel o atgyfeiriadau diogelu dros ben a hanesyddol sydd angen ymchwilio iddynt gan swyddog arweiniol o'r gwasanaeth iechyd.

6.9. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Caerffili yn aelodau o'r bwrdd diogelu oedolion rhanbarthol (mae'r cyfarwyddwr yn gadeirydd arno ar hyn o bryd), ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penodwyd rhywun i weithredu'r camau a oedd yn deillio o'r adolygiad allanol o swyddogaethau'r bwrdd yn 2013-2014.Gwnaed rhywfaint o gynnydd o ran ail-drefnu is-grwpiau'r bwrdd. Bydd angen i'r bwrdd ystyried sut i ddatblygu hyn ymhellach o ran cael pwerau a rheoliadau newydd yn y dyfodol.

6.10. Bu gostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau amddiffyn oedolion lle'r oedd risg wedi'i reoli o 91% yn 2013-2014 i 87% yn 2014-2015.Tra bod AGGCC wedi cael eu hysbysu bod pawb ym mwrdd Gwent wedi dilyn hyfforddiant a gwneud gwaith yn ymwneud â throthwyon, mae'r gwahaniaeth o ran canran yr atgyfeiriadau lle rheolwyd risg yn amrywio o 84% i 100% o fewn y rhanbarth. Mae hwn yn faes y dylai partneriaid ar y bwrdd ei archwilio er mwyn rhannu dysgu a chael mwy o gysondeb.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.11. Mae'r cyngor yn cadw eu hymrwymiad i wasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lleol a gweithio gyda phartneriaid ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn datblygu gwasanaethau presennol ac archwilio dulliau newydd o roi cymorth. Mae hyn yn cynnwys:

- Model llesgedd – mae'r model rhanbarthol ar gyfer atal derbyniadau i'r ysbyty a rhyddhau'n gynnar wedi'i adolygu'n annibynnol, a gwelwyd ei fod yn rhoi cyfraniad cadarnhaol i'r gwasanaethau.

- Darparu gwelyau asesu/ail-alluogi mewn cartrefi gofal lleol.

- Prosiect START - mae'n cynnwys tîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig er mwyn symleiddio mynediad at gefnogaeth a chyngor, a chanolbwyntio ar ganlyniadau unigol. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys tîm y bobl hŷn yn ne'r fwrdeistref, a chawsom ein hysbysu mai hwn yw'r trywydd ar gyfer y gwasanaeth i bobl hŷn yn y fwrdeistref. Bydd AGGCC

yn cynnal ymweliad safle â'r gwasanaeth yn 2015-2016.

- Ar hyn o bryd, mae prosiect Gwrando, Ymgysylltu, Gweithredu, Cymryd Rhan (LEAP) yn weithredol yng ngogledd y fwrdeistref. Mae'r prosiect peilot yn cael ei gynnal ar ran Iechyd Meddwl Gwent a bwrdd partneriaeth anabledd dysgu; mae'n wasanaeth ymatebol sy'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer pobl sydd angen cymorth ar gyfer eu hanghenion iechyd meddwl. Yn ystod ymweliad safle diweddar â'r gwasanaeth, derbyniodd AGGCC adborth cadarnhaol gan y nifer fach o ddefnyddwyr y gwasanaeth y gwnaethom gyfarfod â nhw. Roedd tystiolaeth o gyfeirio at gymorth perthnasol o natur gwasanaeth ataliol.

- Cysylltwyr cymunedol sy'n gweithio fel 'drws ffrynt' ac yn cysylltu â'r cydlynydd pobl dros 50 oed ar gyfer mapio rhwydweithiau a chefnogaeth sydd ar gael ar draws y fwrdeistref er mwyn galluogi staff i gyfeirio pobl at y cymorth mwyaf priodol i'w hanghenion.

- Age Concern a'r tîm rhyddhau o ysbyty ar y cyd yn rhannu lleoliad, sy'n cael ei ystyried i fod wedi chwarae rhan sylweddol o ran lleihau oedi wrth ryddhau pobl o ysbyty.

6.12. Mae dangosyddion perfformiad yn dangos bod y mentrau hyn yn cael effaith o gefnogi pobl er mwyn sicrhau eu bod yn cadw neu'n adennill eu hannibyniaeth. Mae nifer y bobl sy'n cael cymorth yn y gymuned wedi gostwng am y bedwaredd flynedd yn olynol, o 144 i bob 1,000 o bobl yn 2011-2012 i 109 yn 2014-2015.Yn yr un cyfnod, roedd cyfradd y bobl i bob 1,000 o bobl sy'n cael cymorth mewn llety cartref gofal wedi gostwng o 20 yn 2011-2012 i 16 yn 2014-2015.

6.13. Mae nifer y gofalwyr sy'n oedolion a nodwyd wedi gostwng o 1,454 yn 2013-2014 i 764 yn 2014-2015.Roedd canran y gofalwyr a gafodd asesiad eu hunain wedi cynyddu o 22% yn 2013-2014 i 30% yn 2014-2015. Mae hyn ychydig yn is na chanrannau awdurdodau tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae yna weithiwr cymorth penodol i gynnal asesiadau ac i weithio gyda gofalwyr mewn ffordd wahanol, ac er bod arwyddion o effeithiau cadarnhaol o ran nifer yr asesiadau a gynhaliwyd, dylai'r cyngor sefydlu pam fod gostyngiad yn nifer y gofalwyr a nodwyd er mwyn sicrhau bod pobl yn cael cymorth yn eu swyddi gofalu.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

6.14. Mae'r cyngor wedi parhau i weithio gyda phartneriaid iechyd o ran datblygu gwasanaethau i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth, sy'n cysylltu'n agos â'r agenda atal. Mae'r prosiect START a ddisgrifir uchod yn enghraifft o hyn, gyda staff gofal cymdeithasol yn gweithio'n agos â

nyrsys ardal a gwasanaethau gofal cartref a gomisiynwyd er mwyn cefnogi pobl. Bydd datblygiad parhaus y model llesgedd ac ychwanegu cydlynydd cwympiadau yn cynorthwyo pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

6.15. Defnyddiwyd cyllid gofal canolraddol i ariannu gwelyau asesu yn narpariaeth gofal dementia'r awdurdod lleol, a gwelwyd bod chwe gwely arall yng nghanolfan adnoddau'r gogledd wedi'u nodi'n welyau asesu camu i fyny. Erbyn hyn, mae fferyllwyr ar gael o fewn y tîm adnoddau cymunedol sy'n adolygu meddyginiaethau. Mae'r tîm comisiynu'n gweithio'n agos â phartneriaid y gwasanaeth iechyd o ran monitro a chodi safonau o fewn gwasanaethau cartref nyrsio, ac mae AGGCC wedi gweld gwelliannau o fewn y gwasanaethau a reoleiddir yn sgil hyn.

6.16. Roedd yr angen am strategaeth gomisiynu ar y cyd ar gyfer pobl hŷn wedi'i nodi'n faes i'w wella yn y gwerthusiad o berfformiad y llynedd. Mae hwn eto i'w wneud. Mae'r cyfarwyddwr wedi nodi bod hyn yn flaenoriaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol, ac er y rhagwelwyd y byddai hyn yn cael ei wneud yn rhanbarthol o fewn patrwm y bwrdd iechyd, mae strategaeth leol wrthi'n cael ei datblygu yn y cyfamser.

**Meysydd o gynnydd**

- Parhau i ddatblygu dulliau o gael canlyniadau ar gyfer y ddarpariaeth gwasanaeth
- Cydweithio â'r gwasanaeth iechyd
- Ad-drefnu gwasanaethau mewn perthynas â'r angen
- Chwilio am wasanaethau ataliol a chefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain
- Gwelliant sylweddol o ran mynd i'r afael ag oedi wrth ryddhau

**Meysydd i'w gwella**

- Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu'r gwaith o gyd-gomisiynu gwasanaeth i bobl hŷn, a dylai'r cyngor a phartneriaid iechyd wneud hyn yn flaenoriaeth
- Gweithredu'r argymhellion a amlinellir yn adroddiad AGGCC yn dilyn ymweliad safle â phrosiect Gwrando, Ymgysylltu, Gweithredu, Cymryd Rhan, a chymhwyso argymhellion perthnasol o fewn gwasanaethau eraill y gwasanaethau cymdeithasol

## Plant a phobl ifanc

### Trosolwg

6.17. Mae'r cyngor wedi datblygu strategaeth gomisiynu ar gyfer gwasanaethau i blant. Mae hyn yn adlewyrchu'r newid deddfwriaethol, yn anelu at ymateb i anghenion lleol, ac yn nodi amcanion, camau gweithredu, ac amserlenni ar gyfer cyflawni'r rhain. Mae'r pedwar amcan allweddol a nodir yn y cynllun pum mlynedd yn cynnwys atal, rheoli risg, ac ymyrraeth gynnar, a nodi strategaethau clir ar gyfer meithrin trefniadau sy'n ystyried canlyniadau i'r unigolyn. Mae'r ddogfen yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda gwahanol bartneriaid er mwyn cyflawni'r nodau hyn. Mae cysylltiadau agos gyda gwasanaethau a strwythurau ataliol wedi'u meithrin er mwyn cefnogi'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun. Bydd angen i'r cyngor sicrhau bod y cynnydd o ran y nodau hyn yn cael ei fonitro o fewn y fframwaith adolygu ansawdd newydd.

6.18. Mae'r cyngor wedi cynnal perfformiad cryf o ran gwasanaethau i blant. Roedd yr atgyfeiriadau, lle gwnaed penderfyniad o fewn un diwrnod gwaith, yn 100%, ac roedd 93% o asesiadau cychwynnol wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 76%.O'r atgyfeiriadau hynny a aeth ymlaen i asesiad, cafodd 76% eu gweld gan weithiwr cymdeithasol; mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 4% o'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun llai o atgyfeiriadau, mae hyn yn parhau i fod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd gweddill yr asesiadau wedi'u pennu ar gyfer pobl heblaw gweithwyr cymdeithasol. Dywedwyd bod y staff yn cael digon o gefnogaeth gan gydweithwyr profiadol, ac roedd y cyfraddau atgyfeirio yn debyg i rai awdurdodau tebyg ac ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

6.19. Mae'r cyngor yn rhagweithiol o ran datblygu dull sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfer gwasanaethau, gan weithredu fel man cychwynnol i'r broses asesu newydd sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac a gefnogir gan Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai'r gwersi a ddysgir o hyn roi sylfaen ar gyfer datblygu'r dull gweithredu hwn yn lleol ac yn genedlaethol.

6.20. Mae'r trefniadau diogelu rhanbarthol Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru wedi'u hen sefydlu. Mae hyn yn cynnwys gwefan hygyrch a chyfleoedd i ddysgu a rennir yn rhanbarthol. Ar lefel leol, mae'r cyngor yn perfformio'n dda. Y llynedd, roedd o fewn y chwartel uchaf yng Nghymru, ac eleni roedd y cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol, y cyfarfodydd grŵp craidd, a'r adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn amserlenni statudol yn 98%, 99% a 99% yn y drefn honno. Mae

hyn yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ac awdurdodau cymharol.

6.21. Yn 2014-2015, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau'r awdurdod lleol i gefnogi'r gwasanaeth diogelu plant, a gwelwyd bod rhai gwendidau o ran atebolrwydd llywodraethiant corfforaethol a'r trefniadau rheoli ar gyfer goruchwylio pa un a yw'r cyngor yn bodloni ei gyfrifoldebau diogelu i blant, ac mae'r cyngor yn rhoi sylw i hyn. Roedd y cyngor yn ymateb i'r sylwadau hyn, a gwnaethant sefydlu grŵp gorchwyl dan arweiniad cyfarwyddwr cynorthwyol gwasanaethau i blant. Mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu polisïau diogelu lleol (roedd y cyngor wedi cyfeirio at bolisïau a gweithdrefnau Cymru gyfan yn flaenorol);bwriedir cyflwyno'r drafft terfynol i'r cyngor ganol 2015.Bydd AGGCC yn dilyn datblygiad hyn yn ystod ein cyfarfodydd ymgysylltu.

## Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

### Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

6.22. Yn unol â'r gwasanaethau i oedolion, mae'r cyngor yn weithredol o ran chwilio am fodel atal a chefnogi, sydd wedi'i nodi yn ei strategaeth a gyfeiriwyd ati'n flaenorol. Mae'r gwaith o newid strwythur y gwasanaethau i blant er mwyn darparu'r strategaeth hon yn parhau ers ei gychwyn yn 2013-2014.Mae hyn yn cynnwys cyfuno Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) o fewn y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, sydd wedi symud yn ddiweddar o fewn rheolaeth gwasanaethau cymdeithasol. Rhagwelir y bydd hyn yn gwella'r cyfathrebu'n fwy ac yn cefnogi'r strategaeth o ran datblygu gwasanaethau i blant. Mae bwrdd strategol ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys partneriaid allweddol o'r gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal iechyd, ac addysg.

6.23. Mae datblygu 'un pwynt cyswllt' er mwyn rhoi cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth i wasanaethau plant ac oedolion yn welliant ar waith y flwyddyn flaenorol yn y gwasanaethau i blant, a oedd yn cysylltu â gwasanaethau ataliol a datblygu'r ffordd o gyfeirio at gymorth perthnasol a’r gwasanaeth ymyrraeth gynnar. Mae gwybodaeth am berfformiad yn dangos y gallai'r dull hwn fod yn cael effaith, gan fod nifer yr atgyfeiriadau'n gostwng o 2,237 yn 2013-2014 i 1,907 yn 2014-2015, gyda'r gyfradd ail-atgyfeirio'n gostwng o 24% i 20% yn yr un cyfnod.


6.24. Mae gwasanaethau Dechrau'n Deg ar gael yn yr adran addysg, ac maent yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol gyda bwrdd rheoli strategol sengl. Er bod cyfarwyddwr cynorthwyol y gwasanaethau i blant yn adrodd am berthynas weithio dda, dylai'r

cyngor edrych ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn a chanfod cyfleoedd i gysoni gwasanaethau i blant ymhellach er mwyn hyrwyddo'r effaith i'r eithaf.

6.25. Roedd arolygiadau rheoleiddiol ar gyfer darpariaeth feithrin yr awdurdod lleol ei hun, sy'n darparu'r gwasanaeth Dechrau'n Deg, yn dangos darlun cadarnhaol o wasanaethau.

**Plant sy'n derbyn gofal**

6.26. Bu gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerffili, gyda'r gyfradd o blant sy'n derbyn gofal i bob 1,000 o bobl yn gostwng o wyth yn 2011 i 6.77 yn 2015, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef naw. Roedd nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng ymhellach gan bedwar o blant yn ystod 2014-2015. Mae strategaeth gomisiynu'r gwasanaeth i blant a'r datganiad o sefyllfa gwasanaethau i blant 2015-2020 yn amlygu bod nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng ac yn priodoli hyn i sefydlu panel o staff sy'n ystyried y dewisiadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n debygol o dderbyn gofal, ac sy'n caniatáu gwneud penderfyniadau cyson.




**Niferoedd y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerffili | 332 | 333 | 322 | 314 | 296 | 267 | 263 |

6.27. Roedd y cyngor yn parhau i wneud perfformiad da o ran ei gefnogaeth i blant sy'n derbyn gofal. Roedd hyn yn cynnwys 100% o leoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal gyda chynllun gofal ar waith. Er bod yr awdurdod yn parhau i fod o fewn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran cynnal ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal, bu gostyngiad mewn perfformiad ers y flwyddyn flaenorol (o 96% i 91%) o ganlyniad i gynnydd yn nifer yr ymweliadau statudol sy'n ofynnol. Mae hyn yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru o 88%.

6.28. Mae'r cyngor wedi mynegi ei fod yn ymroddedig i wella canlyniadau academaidd plant sydd dan ei ofal, ac, ar y cyfan, mae wedi cynnal ei lefel perfformiad blaenorol. Mae nifer y plant sy'n newid ysgol wedi aros yn sefydlog ar 9%, sy’n is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau tebyg. Mae'r lefelau presenoldeb ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cymharu'n dda ag ardaloedd awdurdodau lleol cymaradwy. Dangosir eu llwyddiant academaidd yn y ffaith bod y plant dros 16 oed sy'n derbyn gofal wedi ennill cymwysterau allanol a'u bod wedi aros yn chwartel uchaf Cymru.

6.29. Mae'r cyngor wedi sefydlu panel amlasiantaeth er mwyn penderfynu ar gamau gweithredu mewn perthynas â chynlluniau sefydlog er mwyn darparu dull cyson a strwythuredig i gynllunio cymorth a chamau gweithredu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae Strategaeth Plant 2015-2020 yn nodi y bydd y panel hwn yn ystyried cynllunio ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal cyn eu hail adolygiad, ac o fewn pedwar mis i ddechrau derbyn gofal. Bydd angen i'r cyngor fonitro llwyddiant y strategaeth hon.

6.30. Gellir cael mynediad at wasanaethau mabwysiadu trwy wasanaeth rhanbarthol a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae hyn wedi cael ei ymestyn i gynnwys pum awdurdod Gwent, yn ogystal â gwasanaethau mabwysiadu Casnewydd a Chaerffili yn y rhanbarth. Roedd hwn yn ddatblygiad o dri threfniant rhanedig blaenorol. Er bod ein cyfarfodydd ymgysylltu wedi sefydlu bod heriau wedi bod o ran staff yn addasu i'r ffyrdd newydd o weithio, roedd hwn wedi bod yn drefniant cadarnhaol. O ran sicrhau sefydlogrwydd, mae'r cyngor yn hysbysu bod y trefniadau mabwysiadu llwyddiannus yn rhagori ar ei darged.

6.31. Fel yr amlinellir yn y meysydd i'w gwella, mae'r cyngor wedi gweithredu dull gweithredol o recriwtio gofalwyr maeth er mwyn cynyddu'r ystod o gyfleoedd cymorth i blant. Roedd hyn yn cynnwys ystod o fentrau, gan gynnwys cael mwy o bresenoldeb yn y gymuned drwy gyfrwng posteri mewn gwasanaethau meddyg teulu a ffreuturau ac ati. Caiff digwyddiadau gyda'r nos a digwyddiadau ar y penwythnos eu cynllunio i hybu dull mwy strategol, er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd.

**Meysydd o gynnydd**

- Newid i fod yn wasanaeth mabwysiadu rhanbarthol
- Recriwtio gofalwyr maeth yn llwyddiannus
- Cyflwyno strategaeth gynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau i blant
- Ailstrwythuro ac adolygu'n barhaus yn unol â'r angen a'r ddeddfwriaeth genedlaethol
- Cymryd rhan mewn datblygu'r fframwaith canlyniadau cenedlaethol

**Meysydd i'w gwella**

- Sicrhau bod y fframwaith sicrhau ansawdd newydd yn adlewyrchu'r dulliau o fonitro datblygiad y strategaeth plant

## 7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

7.1. Mae'r uwch dîm rheoli o fewn y gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i fod yn sefydlog. Mae hyn wedi caniatáu i'r strwythurau newydd gael eu datblygu'n barhaus er mwyn adlewyrchu amcanion y gyfarwyddiaeth ac aildrefnu adnoddau i adlewyrchu anghenion lleol a chefnogi'r newidiadau deddfwriaethol cenedlaethol parhaus. Dylai ychwanegu diogelu'r cyhoedd at bortffolio o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol wella'r cysylltiadau â'r agenda gofal cymdeithasol a lles, ond mae risg y gallai hyn amharu ar rai o'r materion pwysicach yn ymwneud ag ail-drefnu gwasanaethau rheng flaen.

7.2. Mae ailstrwythuro timau a chyfuno swyddi rheoli wedi caniatáu arbedion ariannol heb effaith negyddol amlwg ar y gwasanaeth a ddarperir. Caiff y gwaith parhaus o reoli staff, o ran gweithlu a strwythur, ei ystyried yn allweddol i gyflawni cynllun ariannol tymor canolig y cyngor. Mae'r cyfarwyddwr yn rhoi crynodeb o'r gweithlu, ac yn nodi y dylid ystyried hyn wrth gyflawni cynlluniau.

7.3. Mae'r cyfarwyddwr yn nodi bod y gwasanaethau cymdeithasol wedi aros o fewn y gyllideb ac wedi cyrraedd y targedau arbedion a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ynghyd â chanfod arbedion i'w gwneud yn 2015-2016. Mae'r cyfarwyddwr yn amlygu nad yw'r arbedion a gynigir yn gadael

fawr o le i addasu, ac mae dibyniaeth gynyddol ar arian grant penodol parhaus.

7.4. Ar lefel gorfforaethol, mae adroddiad gwelliant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru yn amlygu'r defnydd da o adnoddau a'r trefniadau ariannol a llywodraethu da sy'n bodoli, gyda chynlluniau a blaenoriaethau pendant ar waith ar gyfer gwneud gwelliannau blynyddol. Mae'r cynlluniau gwella blynyddol yn nodi'r camau gweithredu sy'n ofynnol er mwyn cyflawni blaenoriaethau trosfwaol y cyngor yn ogystal â'r rhai sy'n benodol i wasanaethau cymdeithasol.

7.5. Mae'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cyfarfod yn rheolaidd; mae rheoleiddwyr yn ystyried hyn yn welliant o ran gosod her, ond mae lle i ddatblygu hyn ymhellach. Dylai'r cyngor ystyried sut mae cyfarfodydd y pwyllgor hwn yn cael eu strwythuro er mwyn sicrhau bod yr amser a glustnodir yn rhoi cyfle llawn iddynt drin a thrafod pob eitem ar yr agenda.

7.6. Mae'r gwaith wedi parhau ar gyfer datblygu'r grŵp rhianta corfforaethol, ac ystyrir ei rôl yn hanfodol er mwyn i'r cyngor allu cynnal ei gyfrifoldebau statudol yn ymwneud â phlant. Mae'r drafodaeth ynghylch cynrychiolaeth plant yn y grŵp wedi parhau, ond nid yw hyn wedi cael ei gyflawni hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae cynrychiolydd o wasanaethau eiriolaeth i blant ar y panel yn darparu cyswllt uniongyrchol ar gyfer ymgynghori â phlant a phobl ifanc. Cadarnhaodd y cyfarwyddwr cynorthwyol ar gyfer y gwasanaethau i blant fod hwn yn waith sy'n mynd rhagddo, ac mae uwch-reolwr sy'n arwain y grŵp 'Shout out' i bobl ifanc yn gweithio i wella hyn.

7.7. Er bod y gwasanaethau cymdeithasol wedi cynnal archwiliad ac adolygiad o'i wasanaethau, dylai cyflwyno'r fframwaith sicrhau ansawdd newydd ddarparu dull strwythuredig o adolygu a datblygu gwasanaethau'n barhaus, yn ogystal â gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r strwythur llywodraethu cyffredinol o fewn y cyngor.

7.8. Mae'r cyngor yn gweithredu dull rhagweithiol ar gyfer partneriaethau a threfniadau comisiynu o fewn gwasanaethau i oedolion a phlant. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o brosiectau a mentrau, gan weithio gyda gwasanaethau iechyd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol rhanbarthol, a sefydliadau'r trydydd sector i symleiddio a datblygu gwasanaethau. Er enghraifft, ar gyfer gwasanaethau i oedolion, mae'r prosiect LEAP yn cynnwys gweithio gyda gwasanaethau iechyd a phartneriaid y trydydd sector. Yn ystod ymweliad safle AGGCC â'r gwasanaeth, amlygwyd y cyfleoedd posibl i ddatblygu cysylltiadau pellach yn y trydydd sector pan fydd y prosiect yn cael ei ymestyn. Mae'r tîm datblygu gweithlu ar y cyd, mewn partneriaeth â

gwasanaethau cymdeithasol Blaenau Gwent, yn enghraifft arall o fentrau partneriaeth da. Mae'r awdurdod yn archwilio sut y gellid ymestyn y fenter hon.

**Meysydd o gynnydd**

- Datblygiad o ran sefydlu'r strategaeth ar gyfer iechyd meddwl ac anabledd dysgu ar draws Gwent

**Meysydd i'w gwella**

- Parhau i ddatblygu'r trefniadau craffu
- Y bwrdd rhianta corfforaethol i ddangos dulliau pendant o ymgynghori â phlant a phobl ifanc